# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

**Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol**

***Atodlen 2 – Trafodiadau cyn-gwblhau***

**Rhan 4 - Rheol isafswm y gydnabyddiaeth**

**Rheol isafswm y gydnabyddiaeth**

144. Mae paragraff 15 yn darparu ar gyfer rheol isafswm y gydnabyddiaeth ar gyfer trafodiadau cyn-gwblhau pan geir cysylltiad perthnasol rhwng y partïon. Mae ystyr “cysylltiad perthnasol rhwng y partïon” yn cynnwys pan geir cyfres o drafodiadau cyn-gwblhau, ac fe’i darperir yn is-baragraff (3). Yn y Rhan hon o’r Atodlen, mae cyfeiriadau at “y trafodiad a weithredwyd” i’w darllen fel cyfeiriadau at drafodiadau cyn-gwblhau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 7(1) neu 13(1).

145. Pan fo cysylltiad perthnasol rhwng y partïon mewn trafodiad cyn-gwblhau, mae is-baragraff (2) yn darparu mai swm y gydnabyddiaeth ar gyfer y caffaeliad terfynol yw’r uchaf o’r canlynol:

- y gydnabyddiaeth a fyddai fel arfer oni bai am yr is-baragraff hwn;
- yr isafswm cyntaf (paragraff 16); neu
- yr ail isafswm (paragraff 17).

146. Mae is-baragraff (4) yn darparu bod cyfeiriadau at y “contract gwreiddiol” yn y Rhan hon o’r Atodlen, pan fo’r trafodiad a weithredwyd yn rhan o gyfres o gontractau sy’n ymwneud â’r un testun, i’w darllen fel cyfeiriad at y contract cyntaf yn y gyfres honno. Mae cyfeiriadau at y “prynwr gwreiddiol” i’w darllen yn unol â hynny hefyd.